GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Tîm Therapi Iaith a Lleferydd Plant
# Iaith Oddefol (Deall) a Geiriau Cario Ystyr

**Beth yw Iaith Oddefol?**

Iaith oddefol = deall geiriau a brawddegau fel y gallwn ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthym.
Mae deall iaith a beth yw ystyr geiriau yn ein helpu i wneud y canlynol:

*__Deall gwybodaeth a roddir i ni__
*__Dysgu geirfa__
*__Dysgu am reolau cymdeithasol__
*__Dilyn cyfarwyddiadau__
*__Cymryd rhan mewn sgyrsiau__
*__Rhoi enw i'n hemosiynau__

**Awgrymiadau Gwych i gefnogi dealltwriaeth eich plentyn o iaith**

- Mynnwch sylw eich plentyn cyn i chi siarad fel y gall ganolbwyntio ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud.
- Defnyddiwch gyfathrebu dieiriau, e.e. ystumiau, mynegiant wyneb a chyswllt llygaid.
- Defnyddiwch gymorth gweledol, megis gwrthrychau, teganau, ffotograffau/lluniau ac arwyddion, ar y cyd â geiriau er mwyn helpu eich plentyn i gysylltu geiriau ag eitemau.
- Caniatewch saib i roi amser prosesu i'ch plentyn.
- Modelwch iaithsy'n berthnasol i'r hyn y mae eich plentyn yn ei wneud ac sydd ar y lefel gywir.
- Rhowch gyfarwyddiadau mewn 'talpiau', sef mewn adrannau byr, hawdd eu trin. Er enghraifft, yn lle dweud, 'Cer i nôl dy got a dy esgidiau, a cher i'r car', dechreuwch gyda 'Gwisga dy got'. Ar ôl i'ch plentyn wneud hyn, rhowch ganmoliaeth iddo a symud at y peth nesaf, h.y. 'Cer i nôl dy esgidiau'.
- Yma a 'Nawr – siaradwch am yr hyn sy'n digwydd 'nawr yn hytrach na'r hyn a fydd yn digwydd yn nes ymlaen. Os ddangen i chi siarad am yr hyn sy'n digwydd yn nes ymlaen, gall defnyddio amserlenni gweledol helpu.
- Ehangwch ar ddealltwriaeth eich plentyn trwy ychwanegu un gair/cysyniad newydd ar y tro. Er enghraifft, wrth chwarae dywedwch, 'Cer i chwilio am y ci', 'Cer i chwilio am y ci brown', 'Cer ichwilio am y ci mawr'.
- Ailadroddwch y cyfarwyddyd os nad yw eich plentyn yn deall.
- Osgowch goegni ac iaith ffigurol, e.e. 'Paid â malu awyr', gyda phlant tair oed ac iau. Weithiau gall plant fod yn chwech oed cyn deall iaith o'r fath.
- Ceisiwch gyfnewid 'Negyddion' pan fyddwch yn gofyn i blentyn beidio â gwneud rhywbeth gan fod 'na' neu 'paid' (e.e. 'Paid â rhedeg') yn anodd eu deall.
- Newidiwch y gorchymyn negyddol yn un cadarnhaol, e.e. 'Cerdda os gweli'n dda'.
- Cofiwch y galldealltwriaeth plentyn o iaith leihau'n sylweddol os yw wedi cynhyrfu. Cysurwch eich plentyn, ac yna ewch ymlaen i siarad pan fydd yn fwy tawel.








..
**Amser stori** – wrth edrych ar lyfrau gyda'ch plentyn, gofynnwch iddo chwilio am bethau yr ydych yn eu henwi, e.e. 'Chwilia am ... ' '

*Haws – tedi/cath/car/tŷ.
*Fwy anodd – trwyn tedi/traed y bachgen/y dyn sy'n nofio/y bêl fawr/y car glas/olwynion y trên/y gath a'r llygoden.

.
**Siopa (Byddwch angen: 10 eitem o bob cwr o'r tŷ, e.e. bwyd, teganau, dillad)**
Rhowch fag siopa i'ch plentyn a dywedwch wrtho eich bod yn mynd i'r siop. Gofynnwch iddo 'brynu' dwy eitem.
*Haws – prynu un eitem.
*Fwy anodd – prynu tair eitem.

**Amser tacluso! –** Wrth dacluso, gofynnwch i'ch plentyn wrando a rhoi eitemau penodol yn y lleoedd yr ydych yn eu henwi.
*Haws – 'Rho'r llyfr ar y silff' 'Rho'r tedi mawr yn y blwch' 'Rho'r car glas yn y blwch mawr'.
*Fwy anodd – 'Rho'r car yn y blwch a'r pin ysgrifennu ar y bwrdd'

· **Mae Simon yn dweud** – gofynnwch i'ch plentyn ddilyn cyfarwyddiadau byr, e.e. cyffyrdda â dy drwyn, neidia, eistedd i lawr.
*Haws – dangoswch i'ch plentyn beth i'w wneud trwy fodelu'r weithred a'r geiriau.
*Fwy anodd– gofynnwch i'ch plentyn wneud dau neu dri pheth ar y tro, e.e. 'Cyffyrdda â'r gadair a saf ar un goes'.

.
**Beth ydw i? (Byddwch angen: 10 llun/gwrthrych.)**
Rhowch 2/3 llun gerbron eich plentyn a gofynnwch iddo chwilio am yr un yr ydych yn ei ddisgrifio, e.e. chwilia am un yr wyt yn ei gicio, chwilia am un yr wyt yn ei fwyta, chwilia am un sy'n goch/fawr/feddal.
*Haws – rhowch gliw ychwanegol i'ch plentyn.
*Fwy anodd – rhowch fwy o opsiynau gerbron eich plentyn.

.
**Picnic (Byddwch angen: tedi a doli/hoff degan, a bwyd chwarae/go iawn.)**
Rhowch gyfarwyddiadau i'ch plentyn: 'Rho'r afal i doli', 'Rho'r gacen i tedi'.
*Haws – defnyddio un tegan meddal yn unig.

*Fwy anodd – gofyn i'ch plentyn roi dwy eitem o fwyd yr un i'r ddau degan meddal.

## Gwefannau Defnyddiol

https://www.cambscommunityservices.nhs.uk/what-we-do/children-young-people-health-services-cambridgeshire/specialist-services/childrens-speech-and-language-therapy/activities-ideas-and-info
https://swindonspeechandlanguagetherapy.wordpress.com/school-age-resources/
https://www.humber.nhs.uk/services/childrens-language-resources.htm
https://www.hacw.nhs.uk/childrens-speech-and-language-resources/
https://www.leedscommunityhealthcare.nhs.uk/our-services-a-z/speech-and-language-therapy2/speech-and-language-therapy-toolkit

